**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG AR 15 HYDREF 2025, YN Y SEFYDLIAD COFFA AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones, Philip Roberts, Ann Lawton, Cemlyn Jones, Dylan Jones, Beca Brown

**YMDDIHEURIDAU:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Colin Swatridge, Berwyn Parry Jones, Richard Robinson, Hefin Jones

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Lowri Gwyn (Lingo Cyf), Cyfieithydd

Goronwy Owen (Adra)

Nifedr o aelodau o'r cyhoedd

**1512. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**1513 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1514. Datgan buddiant personol.**

Fe ddatganodd y Cynghorydd Ann Lawton fuddiant yn eitem 1515 am ei bod gyda eiddo ger safle'r datblygiad arfaethedig

**1515. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0651/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais cynllunio llawn ar gyfer 17 annedd fforddiadwy, ynghyd a chreu mynediad newydd i gerbydau a ffordd fynedfa fewnol, cau 2 bwynt mynediad amaethyddol presennol, creu mynediad newydd i wasanaethu is-orsaf newydd, gwaith ymestyn Ffordd Glanffynnon ynghyd a gwaith tirlunio, draenio a gwaith arall cysylltiedig. Full planning application for 17 affordable dwellings, together with creating new vehicle access and an internal entrance road, closing 2 existing agricultural access points, creating new access to serve a new sub-station, extension works to Glanffynnon Road along with landscaping, drainage, and other related works.
**Ymgeisydd:** (Adra)
**Asiant:** Mr Sion Roberts (Cadnant Planning)

**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253645.89838832873, 363055.38469775394
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy roi cyfle i aelodau o'r cyngor oedd wedi ymgynnull roi ei sylwadau am y cynllun. Cafodd pawb gyfle i holi Mr Goronwy Owen o Adra, am y cynllun ac gyfle i holi cwestiynau.

Ymysg y pwyntiau drafodwyd oedd

- Pryder am ddiffyg parcio, yn enwedig ger yr Ysgol Gynradd pan mae pobol yn danfon a codi plant fyny o'r Ysgol.
- Awgrymwyd nad oed y lleoliad ar gyfer y tai yn addas
- Fod system dwr yn enwedig yn waelod Stad Glanffynnon ddim yn ddigonol
- Codwyd nifer o amheuon am gynnwyd a chywirdeb adroddiad Dwr Cymru
- Cafwyd cwyn fod y tir ddim wedi glustnodi ar gyfer datblygiad o'r fath (cadarnhaodd Mr Goronwy Owen mai dim ond ar gyfer adeiladu gan Gymdeithasau Tai ar gyfer tai cymdeithasol y caiff ei ddefnyddio)
- Nodwyd pryder am adroddiad am y bywyd gwyllt sydd ar y safle fod yr adroddiad yn anghywir ac wedi cadarnhau
- Nifer yn cael anhawster o allu mynega sylwadau am y cais ar wefan Cyngor Gwynedd (cytunodd y clerc a'r Cynghorydd Beca Brown byddent yn fodlon pasio unrhyw sylwadau ymlaen i'r Adran Gynllunio, naill ai o blaid neu yn erbyn)
- Diffyg llythyru am y cais Cynllunio gan Gyngor Gwynedd – nifer o breswylwyr ddim wedi derbyn Llythyr
- Diffyg adroddiad gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd roedd yn ei gwneud yn anodd i aelodau'r cyngor cymuned ddod i benderfyniad
- Fod y cyngor angen mwy o amser i ystyried y cais a derbyn mwy o wybodaeth

**Penderfynnwyd:**

- Peidio do di unrhyw benderfyniad heno
- Cysylltu a Chyngor Gwynedd o ofyn am estyniad i'r dyddiad rhoi sylwadau
- Diolch i Mr Goronwy Owen am ddod i'r cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 20:35

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: